



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

8

Ionawr 2019

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018, ynghylch Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod Rheoliad 29 wedi ei fframio yn glir.

Bydd dosbarthu carcas buchol drwy offer graddio awtomatig heb drwydded, neu yn groes i delerau trwydded a gyflwynir o dan reoliad 9 yn drosedd fel a nodir yn rheoliad 29(2).

Byddai dosbarthu carcas buchol mewn ffyrdd ar wahân i offer graddio awtomatig heb, neu yn groes i delerau trwydded a roddir o dan reoliad 8 yn drosedd fel a nodir yn rheoliad 29(1).

Mae strwythur rheoliad 29 yn adlewyrchu strwythur y rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol i Gymru (gweler rheoliad 28 Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1826)) a strwythur y darpariaethau sy'n berthnasol ar hyn o bryd yn Lloegr (gweler rheoliad 30 o O.S. 2018/1164), sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon o'r 10 Ionawr 2019 (gweler reoliad 26 o O.S. 2019/216) ac sy'n ymestyn i'r Alban (gweler reoliad 22 o O.S. 2010/330) ond bod y rheoliadau yn yr Alban yn cyfeirio at 'ddulliau graddio awtomatig' yn hytrach nag offer.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y camgymeriadau fformatio yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau a gyhoeddir ar [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk), gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod swyddogion wedi cysylltu â'r Archifau Cenedlaethol i ofyn i'r camgymeriadau fformatio sydd wedi ymddangos yn y Rheoliadau wedi'u cyhoeddi gael eu cywiro i adlewyrchu fformatio y Rheoliadau, fel y cawsant eu gwneud.

*Xn gywir*  
*Lesley*

**Lesley Griffiths AC / AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs